

Ffurflen Newid manylion eich pobl gyswllt



Beth yw diben y ffurflen hon?

✓ **Defnyddiwch y ffurflen hon** i roi manylion unrhyw newidiadau i'r manylion cyswllt ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â'ch prosiect, neu i newid cyswllt cyfredol a rhoi un newydd.

✗ **Peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon** i newid manylion eich prosiect neu eich mudiad neu i newid pa fudiad sy'n gyfrifol am yr ariannu.

Yn lle, gofynnwch am un o'r ffurflenni a ganlyn:

- Newidiadau i'ch prosiect – canlyniadau, buddiolwyr, cyllideb, lleoliad, hyd
- Newidiadau i fanylion eich mudiad
- Ffurflen trosglwyddo prosiect

Sut i lenwi'r ffurflen hon

- ▶ Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cadw'r ffurflen hon ar eich cyfrifiadur eich hun a'ch bod yn defnyddio **Adobe Reader fersiwn 10.0** neu'n ddiweddarach.
- ▶ Cwblhewch dim ond adrannau perthnasol y ffurflen hon h.y. y rhai sy'n ymwneud â'r newid y dymunwch ei wneud.
- ▶ Ar ôl ei chwblhau, atodwch hi i e-bost a dychwelwch hi atom.

Rhif adnabod y mudiad	
------------------------------	--

Enw'r mudiad	
---------------------	--

Rhif adnabod y prosiect	
--------------------------------	--

Enw'r prosiect	
-----------------------	--

1. Pobl gyswllt y prosiect

Manylion personol	Manylion newydd		
	Prif gyswllt	Ail gyswllt	Cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol
Teitl			
Enwau cyntaf			
Cyfenw			
Teitl swydd			
Dyddiad Geni (dd/mm/bbbb)			
Ffôn yn ystod y dydd			
Ffôn gyda'r hwyr			
Ffôn symudol			
E-bost ar gyfer y mudiad hwn			

Cyfeiriad cartref	Prif gyswllt	Ail gyswllt	Cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol
Rhif y fflat			
Rhif yr adeilad			
Enw'r adeilad			
Stryd			
Tref neu ddinas			
Côd post			
Nifer o flynyddoedd yn y cyfeiriad hwn			

Os yn byw yn y cyfeiriad hwn ers llai na thair blynedd, rhowch fanylion cyfeiriadau blaenorol ar gyfer y cyfnod hwn.

Cyfeiriad cartref blaenorol	Prif gyswllt	Ail gyswllt	Cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol
Rhif y fflat			
Rhif yr adeilad			
Enw'r adeilad			
Stryd			
Tref neu ddinas			
Côd post			

Cyfeiriad gohebiaeth y prosiect	
Os nad yw'r cyfeiriad gohebiaeth a ffafrir yr un â chyfeiriad y mudiad neu gyfeiriad cartref y person, rhowch fanylion isod.	
Rhif y fflat	
Rhif yr adeilad	
Enw'r adeilad	
Stryd	
Tref neu ddinas	
Côd post	
laith gyfathrebu	
Anghenion cyfathrebu	
Os 'Arall' rhowch fanylion	

Pam ydych chi'n gwneud y newid hwn a pha effaith a gaiff ar eich prosiect?
Gallwch ysgrifennu hyd at 2,000 o nodau (tua 300 gair).

2. Diogelu data

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn ystod cyfnod y grant i weinyddu a dadansoddi grantiau ac at ein dibenion ymchwil ein hunain. Mae'n bosib y byddwn yn rhoi copïau o ran neu'r cyfan o'r wybodaeth hon i unigolion a mudiadau rydym yn ymgynghori â nhw wrth asesu ceisiadau, gweinyddu'r rhaglen, monitro grantiau a gwerthuso prosesau ac effeithiau ariannu. Gall y mudiadau hyn gynnwys cyfrifwyr, gwerthuswyr allanol a mudiadau neu grwpiau eraill sy'n ymwneud â chyflwyno'r prosiect.

Mae'n bosib y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda mudiadau ac unigolion sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri neu raglenni ariannu penodol. Mae'n ddyletswydd arnom i ddiogelu arian cyhoeddus a chan hynny, mae'n bosib y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill y Loteri, mudiadau sy'n darparu arian cyfatebol neu at ddibenion atal a chanfod twyll.

Mae'n bosib y bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i ddarparwr gwasanaethau TG a leolir y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE). Os caiff eich gwybodaeth ei throsglwyddo y tu allan i AEE, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei diogelu'n briodol.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio gwybodaeth bersonol a ddarperir gennych er mwyn cyflawni gwiriadau adnabyddiaeth priodol. Gall gwybodaeth bersonol rydych yn ei darparu gael ei datgelu i asiantaeth cyfeirnod credyd neu atal twyll a fydd, o bosib, yn cadw cofnod o'r wybodaeth honno.

Os byddwch yn darparu gwybodaeth ffug neu anghywir yn eich cais neu unrhyw bryd yn ystod cyfnod unrhyw ariannu a ddyfarnwn i chi ac mae twyll yn cael ei ddatgelu, byddwn yn darparu manylion i asiantaethau atal twyll, er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian. Gallwch gael manylion pellach yn esbonio sut y gellir defnyddio'r wybodaeth a ddelir gan asiantaethau atal twyll gan ein hadran Gwasanaethau i Gwsmeriaid trwy anfon e-bost i dataprotection@biglotteryfund.org.uk, ffonio ein llinell gymorth ar 0300 123 0735, neu ysgrifennu at: Gwasanaethau i Gwsmeriaid, Cronfa Loteri Fawr, 10fed Llawr, Tŷ Helmont, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2DY.

Mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r data rydych yn ei ddarparu at ddibenion ymchwil. Cydnabyddwn yr angen am gynnal cyfrinachedd grwpiau bregus ac ni chaiff eu manylion eu cyhoeddi mewn unrhyw ffordd oni bai bod y gyfraith yn mynnu bod hyn yn cael ei wneud.